

Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 6

Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: Dydd Gwener, 3 Mawrth 2023

Yn bresennol:

Cadeirydd: Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

Aelodau: Matt Downie (Crisis), Liz Davies CB (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Angela Bowen (Cyngor Sir Gâr), Emily James (Cyngor Sir Penfro), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Nazia Azad (Tai Pawb), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru), Huw Charles (Llywodraeth Cymru).

Hefyd yn bresennol: Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis), Debbie Thomas (Crisis), Anna Mann (Cyngor Conwy), Tina Reece (Llywodraeth Cymru), Eleri Davies (Llywodraeth Cymru).

Ymddiheuriadau: Sam Parry (Cyngor Conwy), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru).

1. Croeso, cyflwyniadau, cofnodion a phapurau ychwanegol

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Panel i chweched cyfarfod y Panel Adolygu Arbenigol. Diolchodd i'r Panel am ddarllen y cofnodion a'r ddogfen tabl argymhellion o gyfarfod 5 cyn y cyfarfod.

Cofnodion cyfarfod 5: Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir tra'n disgwyl am un cam gweithredu y gofynnwyd amdano i drosglwyddo'r geiriad o fewn troi allan ar adran 11 Awstria/Gwlad Belg drosodd i'r ddogfen tabl argymhellion gysylltiedig.

Dogfen tabl argymhellion: Derbyniwyd y tabl tra'n disgwyl i ychwanegu at y nodiadau ar t.14-15.

Dywedodd y Cadeirydd y bydd y Panel yn defnyddio'r tabl argymhellion cryno yn y dyfodol. Eglurodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio ar ddau faes: plant, teuluoedd a phobl ifanc, a cham-drin domestig a materion cysylltiedig. Cyn trafod pob maes, amlinellir y safbwyntiau a gasglwyd gan y prosiect Arbenigwyr drwy Brofiad.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Abi Renshaw	Trosglwyddo paragraff adran 11 troi allan yng nghofnodion cyfarfod 5 i'r ddogfen tabl argymhellion.	Ar unwaith
Pawb	Aelodau'r Panel i ddarllen yn ofalus y ddogfen tabl argymhellion, sy'n crynhoi sefyllfa'r Panel hyd yn hyn.	Ar unwaith

2. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Rhoddodd HF ddiweddariad byr gan Lywodraeth Cymru:

- Bu'r ail grŵp cyfeirio awdurdodau lleol yn trafod addasrwydd, llety dros dro a throi allan. Roedd 29 o gynrychiolwyr yn bresennol a chafwyd adborth da – bydd yr adborth yn cael ei ddosbarthu cyn cyfarfodydd â'r themâu cyfatebol.
- Mae gwaith dyraniadau yn mynd yn ei flaen ac yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru. Diolch i JM a CC am eu cymorth â hyn.

- **Dod o hyd i ymgynghorydd**
Dechrau ar y gwaith o chwilio am ymgynghorydd am ddau fis ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol.
- **Cyfarfodydd wyneb yn wyneb**
Wedi cyfarfod cydweithwyr bron i fis yn ôl i gefnogi gwaith y Panel. Mae darn byr o waith wedi'i gomisiynu er mwyn casglu astudiaethau achos manwl ledled Cymru, gan gofnodi'r heriau ac arferion da.
- **Casglu data gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai**
Mae heriau yn ymwneud â diffiniadau data. Mae rhywfaint o waith profi meddal yn cael ei wneud gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai er mwyn dechrau casglu a chofnodi tystiolaeth ansoddol, ac mae arolygon dienw yn cael eu cynnal er mwyn casglu barn.
- **Digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid**
Mae digwyddiad dyraniadau wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Ebrill er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer y drafodaeth yng nghyfarfod 5.2 ar 10 Mai.
- Mae gwaith ymgysylltu yn mynd rhagddo er mwyn cyfarfod pob awdurdod lleol wyneb yn wyneb dros y ddau fis nesaf i drafod eu hargymhellion ar gyfer diwygio mewn cysylltiad â'r agenda ailgartrefu cyflym. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â beth y mae pob awdurdod lleol yn ei weld ar y rheng flaen.
- Mae'r drafft o adroddiad Tai Pawb i fod yn barod heddiw, a bydd yn cael ei rannu gyda'r Panel cyn bo hir.

Yn nhrefodaeth y Panel ar y briff cadarnhawyd:

- Mae cyfarfod atodol 5.2 ar ddyraniadau a throi allan wedi'i gadarnhau ar gyfer 10 Mai, ac mae pob aelod o'r Panel yn gallu bod yn bresennol.
- Mae'r darn o waith ar ddyraniadau yn hollbwysig i'r Panel. Diolchwyd i'r cydweithwyr am eu cyflymder gan fod y canlyniad yn werthfawr iawn fel sail i gyfarfod y Panel i drafod dyraniadau ar 10 Mai.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Hannah Fisher	<p>Dosbarthu i'r Panel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adborth ysgrifenedig o ail gyfarfod grŵp cyfeirio'r awdurdodau lleol ar addasrwydd, llety dros dro a throi allan i'w ystyried cyn cyfarfodydd thema. • Dyddiad ar gyfer digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid dyraniadau ym mis Ebrill. <p>Yn niweddariad Llywodraeth Cymru yn y seithfed cyfarfod, gwneud sylwadau am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y cynnydd â'r darn o waith ar ddyraniadau a dod o hyd i ymgynghorydd. • Cyfathrebu canfyddiadau o'r digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd ddiwedd mis Ebrill. • Gwaith ymgysylltu ar argymhellion ar gyfer diwygio drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb ag awdurdodau lleol. • Rhannu adborth ar adroddiad Tai Pawb. 	<p>1 wythnos cyn cyfarfodydd ar lety dros dro ac addasrwydd (dyddiad i'w gadarnhau) a throi allan (10.05.23)</p> <p>29.03.2023</p> <p>Cyn 10.05.2023</p> <p>29.03.2023</p> <p>29.03.2023</p>
Abi Renshaw	Holi pa bryd y mae aelodau'r Panel ar gael a threfnu dyddiad ar gyfer cyfarfod atodol 5.1 ar lety dros dro ac addasrwydd.	Ar unwaith

3. **Diweddariad gan yr Arbenigwyr drwy Brofiad ar blant, teuluoedd a phobl ifanc**

Rhoddodd KD ddiweddariad ar y gwaith ymgysylltu ag Arbenigwyr drwy Brofiad i gefnogi'r papur a ddisbarthwyd i'r Panel cyn y cyfarfod. Roedd y prif themâu a godwyd gan bobl ifanc a oedd â phrofiad bywyd yn cynnwys:

Canfod eu ffordd o gwmpas y system

Dywedodd nifer o unigolion eu bod yn cael anhawster i ganfod eu ffordd o gwmpas y system. Pan oeddent yn gallu canfod eu ffordd o gwmpas y system, roedd hyn yn aml oherwydd eu bod wedi cael cymorth gan gyrrff eraill yr oeddent yn ymddiried ynddynt, er enghraifft gwasanaethau ieuencid neu elusennau pobl ifanc drwy rôl eiriolwr.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach, mynediad at wybodaeth, gwasanaethau cyhoeddus eraill yn gweld arwyddion risg posibl.

Bwlch rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol

Nid yw gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol yn teimlo'n gydgyssylltiedig ac roedd unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu 'bownsio rhyngddynt'. Roeddent wedi cael eu dal rhwng dyletswyddau'r Ddeddf Tai a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac roedd dryswch ynglŷn â lle roeddent yn teimlo oherwydd amgylchiadau ac oedran.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Darparu eglurder fel nad oes neb yn cael ei ddal yn y canol.

Llety dros dro i bobl ifanc 16-25 oed

Mynegwyd profiadau amrywiol, â llety â chymorth arbenigol i bobl ifanc yn brofiad o ansawdd llawer gwell. Mae gan y math yma o lety weithwyr cymorth/gweithwyr cymorth ieuencid arbenigol ar y safle sydd wedi'u paratoi i wneud mwy na dim ond rhoi to uwch eu pennau a gwneud yn siŵr eu bod yn talu rhent. Maent yn darparu gweithgareddau, cyfleoedd, camau nesaf i'w helpu i ffynnu a llwyddo.

Llety dros dro anaddas

Weithiau mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn llety anaddas oherwydd bod llety addas yn brin. Mae rhai ffactorau sy'n gallu achosi i bobl ifanc fod yn agored iawn i niwed, ac oherwydd y ffactorau hynny a thrawma gallent elwa o lety addas.

Gwnaeth mamau ifanc sylwadau ynglŷn â'r safonau sydd eu hangen, a'r angen am fynediad at ysgolion a cholegau ac ati. Mae WiFi da yn hanfodol er mwyn cadw mewn cysylltiad â chyfoedion ac at ddibenion addysgol.

Argymhelliad i'r Panel ei drafod: Mae angen i awdurdodau lleol ddarparu mwy o lety dros dro â chymorth ar y safle sy'n addas i bobl ifanc.

Cysylltiad lleol

Yn enwedig yn y grŵp LGBTQ+, gall cysylltiad lleol weithio yn erbyn pobl ifanc. Dywedodd rhai bod arnynt angen dianc oddi wrth deulu o ganlyniad i gael eu gwrthod/camdriniaeth oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Roedd pryder gwirioneddol ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai pobl geisio manteisio ar y ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed os oes rhaid iddynt aros yn eu hardal leol.

Symud ymlaen i lety

Cafodd ei ddisgrifio fel 'hunllef' ac yn anodd iawn i'w gael, â rhwystrau ychwanegol yn cael eu hwynebu, er enghraifft y gyfradd llety a rennir.

Argymhelliad i'r Panel ei drafod: Ceisio lleddfu'r pryderon hyn i bobl ifanc, drwy argymhellion yn ymwneud â chynllunio, dyraniadau, diwallu eu hanghenion mewn tai cymdeithasol ac yn y blaen.

Gwasanaethau cyhoeddus eraill

Mae angen mwy o wybodaeth yn y man er mwyn darparu cymorth a chynnig ymyriad cynnar. Mae rhai yn rhyngweithio â gwahanol wasanaethau cymdeithasol cyhoeddus ar gyfer anghenion gofal ac addysg.

Argymhelliad i'r Panel ei drafod: Gwneud mwy ym maes llythrennedd ariannol, h.y. dysgu am dai a digartrefedd mewn lleoliad ysgol. Hefyd, cyfeirio at ddyletswyddau atgyfeirio/cymorth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ehangach, er mwyn atal digartrefedd a darparu cymorth.

Lloches nos

Roedd rhai pobl ifanc 16-17 oed yn cael eu lleoli mewn llochesi nos fel math o lety dros dro.

Argymhelliad i'r Panel ei drafod: Mae'r gyfraith eisoes yn dweud na ddylid lleoli pobl ifanc 16-17 oed mewn llety anaddas. Mae angen i ni sicrhau nad yw hyn yn digwydd yn ymarferol.

4. Diweddariad ar sesiwn rhanddeiliaid Plant yng Nghymru

Roedd y prif themâu eraill a drafodwyd ar wahân i'r rhai y cyfeiriwyd atynt eisoes gan Arbenigwyr drwy Brofiad, ar gyfer y rhai dan 16 oed, yn cynnwys:

- Gellid gwneud llawer i wella'r profiad o ofal pe bai'r system yn seiliedig ar drawma.
- Mae pobl ifanc sy'n cael eu rhoi mewn gofal yn cael eu lleoli mewn ardal awdurdod lleol wahanol i'w hawdurdod cartref. Yna mae'r awdurdod lleol yn dweud na allant eu lleoli yn yr ardal honno, lle roeddent wedi bod yn cael eu cefnogi drwy'r system ofal, oherwydd rheolau cysylltiad lleol. Mae hyn yn symud pobl ifanc oddi wrth eu rhwydwaith cefnogi ac oddi wrth y cysylltiadau a oedd yn eu helpu i deimlo'n ddiogel. Penderfyniadau'n cael eu gwneud er nad oedd ganddynt gysylltiadau go iawn â'u hawdurdod cartref gwreiddiol.
- Dyletswydd i gyfeirio er mwyn dal pethau'n gynharach ar ddyletswyddau cyhoeddus ehangach er enghraifft mewn ysgolion a gofal iechyd.

Dywedodd HF nad oes llawer o dystiolaeth yn ymwneud â phrofiad plant dibynnol, ac mae angen gwneud mwy o waith yn y man hwn er mwyn dal lleisiau pobl ifanc dan 16 oed, plant dibynnol a theluoedd.

5. Trafodaeth y Panel ar blant, teuluoedd a phobl ifanc

Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd ac y tynnwyd sylw atynt fel a ganlyn:

Sefyllfaoedd yn codi ac argymhellion i ddiwygio yn ymwneud â -

- Deddfwriaeth ddigartrefedd greiddiol
- Dyletswyddau ar gyrrff cyhoeddus ehangach

Â'r nod o geisio gwneud argymhellion diriaethol ar ganllawiau deddfwriaethol.

Gwahaniaeth mewn aeddfedrwydd rhwng 16 a 25

Mae gwahaniaeth mawr rhwng rhywun sy'n 16 oed a rhywun sy'n 25 oed. Dywedodd yr Arbenigwyr drwy Brofiad fod rhai menywod yn teimlo bod digartrefedd wedi eu gorfodi i 'dyfu i fyny' yn gyflym, a'u bod felly'n teimlo'n aeddfed o ystyried eu hoed gan eu bod yn deall systemau cymhleth. Fodd bynnag, roedd menywod eraill yn teimlo eu bod yn oedolion o safbwynt technegol, ond eu bod yn teimlo fel plentyn gan nad oeddent wedi cael arweiniad gan eu teulu neu gymorth gan gartref sefydlog i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen.

Rhyddhau i ddigartrefedd

Dylid rhoi dyletswydd i beidio â rhyddhau pobl ifanc o ofal cymdeithasol neu sefydliadau diogel i ddigartrefedd. Mae rhyddhau plant a phobl ifanc i ddigartrefedd yn anghydnaws â deddfwriaeth hawliau plant. A allai'r cyfnod hysbysiad 56 diwrnod o risg o ddigartrefedd fod yn gymwys tra mae person ifanc mewn gofal cymdeithasol neu sefydliad diogel?

Yn yr Alban, dealltwriaeth y Panel oedd nad yw gadawyr gofal yn cael eu rhyddhau i ddigartrefedd fel mater o drefn. Os ydynt yn mynd yn ddigartref ar ôl gadael, mae hyn fel arfer oherwydd methiant trefniant ar ôl gadael gofal. Efallai fod modd i'r Panel gynnwys egwyddorion o'r Alban yn y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau, er mwyn atal hyn rhag digwydd, a chynnwys mynediad diamod at gartref sefydlog fel un o'r conglfeini.

Dyletswydd i roi gwybod am ôl-ddyledion rhent

Byddai dyletswydd i hysbysu gwasanaethau tai a digartrefedd am ôl-ddyledion rhent yn fuddiol er mwyn osgoi troi allan, ond mae angen ystyried rhai canlyniadau posibl:

- A yw'r system yn gallu ymdopi â chefnogi pobl sydd ag ôl-ddyledion?
- A yw hysbysu ynglŷn â sefyllfa ariannol yn cydymffurfio â'r rheoliad GDPR?
- A oes canlyniadau anfwriadol i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n cael mynediad at wybodaeth ariannol?

Diffinio tai sefydlog

Dylai'r meini prawf diofyn ar gyfer llety person ifanc fod yn gyson â'r grŵp gorchwyl a gorffen ailgartrefu cyflym.

- Dewis a rheolaeth.
- Cartref prif ffrwd annibynnol.
- Mabwysiadu egwyddorion tai yn gyntaf.
- Cymorth i osgoi crynhoi ôl-ddyledion.
- Osgoi llety dros dro. Diffinio'r llwybr ar gyfer oedolion yn unol ag ailgartrefu cyflym.
- Mynediad diamod, h.y. gadawyr gofal.
- Lleoliad wedi'i gomisiynu er mwyn diwallu anghenion.
- Llety â chymorth a rennir.
- Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus eraill.
- Symud oddi wrth leoliadau sefydliadol diofyn.

Argymhellion ar gyfer deddfwriaeth i nodi'n glir mewn ffordd ddiriaethol beth ddylai'r meini prawf fod.

Cyfnodau pontio i bobl ifanc

Mae llawer o bobl ifanc nad ydynt yn pontio rhwng systemau tai a hefyd, er enghraifft, o CAMHS i wasanaethau iechyd meddwl oedolion, lle mae'n bosibl na fyddant yn cael cymaint o gymorth.

Fforddiadwyedd llety â chymorth

Un o'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu person ifanc yw methu â chael gwaith os yw mewn llety â chymorth gan nad yw'n gallu fforddio talu'r rhent. Mae'r person ifanc mewn sefyllfa wedyn lle mae'n dibynnu ar fudd-daliadau.

Eiriolaeth

Er bod eiriolaeth yn bwysig er mwyn helpu pobl ifanc i wybod beth yw eu hawliau a chanfod eu ffordd o amgylch y system, dylai eiriolaeth fod yn ail i gael y system yn glir ac yn gryno yn y lle cyntaf. Gellid cyflwyno deddfwriaeth er mwyn gwneud y system dai yn haws i'w deall.

Gallai'r Panel geisio sicrhau bod y ddyletswydd i ddarparu eiriolwr yn berthnasol i unrhyw berson ifanc sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd. Byddai angen i'r eiriolwr fod yn allanol i'r awdurdod lleol. Gallai awdurdodau lleol gyflenwi rolau eiriolaeth annibynnol i bob person digartref, ond pe na bai'r adnoddau'n ymestyn mor bell â hynny, o leiaf i grwpiau arbennig sy'n wynebu risg o wahaniaethu.

Fflatiau hyfforddi awdurdodau lleol

Mae gan rai awdurdodau lleol fflatiau hyfforddi a rennir. Mae'r fflatiau hyn a rennir wedi'u cynllunio ar gyfer y rhai ag anghenion cymorth isel sydd eisiau ceisio byw'n annibynnol, ond nid ydynt yn fuddiol oni bai fod cymorth priodol ar gael.

Mae manteision fflatiau hyfforddi yn cynnwys dysgu sut i reoli arian a chyllidebu er mwyn talu biliau cyfleustodau a thaliadau gwasanaeth, yn ogystal â dysgu sut i 'fod yn denant da' a chael cymorth cyn symud ymlaen. Mae'r adborth gan unigolion sydd wedi byw yn y fflatiau hyfforddi hyn yn gadarnhaol, o ganlyniad i rent cymdeithasol, cymorth lle bo'r angen, rhannu â pherson arall a pheidio â bod mewn lleoliad sefydliadol.

Gan fod fflatiau un ystafell wely yn brin, mae fflatiau hyfforddi a rennir yn fwy hyfyw. Mae'r rhain yn amodol ar gyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Gellid adolygu'r model hwn o ystyried prinder llety â chymorth.

Dywedodd un aelod o'r Panel fod angen meini prawf ar gyfer cael mynediad at fflatiau hyfforddi, oherwydd pe bai'r cynnig yn cael ei ymestyn i rai dan 25 oed, byddai rhai awdurdodau lleol o'r golwg mewn ceisiadau. O safbwynt y gwasanaethau cymdeithasol nid yw'r rhain yn fuddiol.

Asesiadau o'r farchnad dai

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdod Tai Lleol lunio strategaeth a fydd yn cynnwys y pwerau i asesu'r farchnad dai. Mae hyn yn y canllawiau yn barod, ond gellid ychwanegu cyfeiriad yn y ddeddfwriaeth ar ystyried anghenion aelwydydd digartref fel gofyniad penodol i awdurdodau lleol wrth baratoi strategaethau a'u hasesiad o'r farchnad dai leol. Mae cymal yn bodoli'n barod sy'n cyfeirio'n benodol at Sipsiwn, Roma a Theithwyr – gellid cynnwys cymal tebyg ar gyfer aelwydydd digartref.

Roedd rhai aelodau o'r Panel yn cefnogi cryfhau deddfwriaeth yn ymwneud â'r cymal hwn, a bydd LD yn edrych sut y gallai hyn weithio.

Tenantiaethau i bobl ifanc 16-17 oed

Yn yr Alban, gall pobl ifanc 16-17 oed ddal tenantiaeth a bod ag angen blaenoriaethol, ond ar hyn o bryd nid yw hynny'n bosibl i'r grŵp oedran hwn yng Nghymru. Gallai'r Panel argymhell hawliau tenantiaeth ar gyfer rhai dan 18 oed gan ei bod yn anodd i bobl ifanc 16-17 oed gael tŷ. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn o'r blaen.

Mathau o dai cymdeithasol

Holwyd tybed a fyddai'n bosibl pennu pa fathau o gartrefi cymdeithasol ddylai gael eu hadeiladu ym mhob awdurdod lleol ar sail anghenion y boblogaeth, yn enwedig pobl ifanc. Er bod angen tai â chymorth ar gyfer rhai pobl ifanc, mae ar bobl ifanc eraill eisiau bod yn fwy annibynnol.

Cyfradd ystafell a rennir (budd-dal tai)

Wrth ystyried rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc, mae'n bwysig ystyried bod y Gyfradd Ystafell a Rennir ar gyfer Budd-dal Tai yn mynd i fyny i 35 oed, yn hytrach na 25 oed. Nodwyd bod hyn yn rhwystr sy'n atal mynediad at dai yn ystod adolygiad Llywodraeth Cymru o angen blaenoriaethol yn 2020.

Llety dros dro i bobl ifanc 16-25 oed

Roedd y Panel yn cefnogi'r syniad o wahardd llety dros dro anaddas i rai dan 25 oed.

Trafododd y Panel yr angen am fwy o dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â llety dros dro, gan gynnwys llochesi a chymorth i fenywod a phlant sy'n wynebu risg o drais. Mae'n bosibl y gellid edrych ar awdurdodaeth ehangach ar draws y DU er mwyn canfod sut/a yw systemau cyfreithiol wedi helpu i ddileu lleoliadau mewn sefydliadau a lleoliadau heb gymorth.

Cysylltiad lleol

Roedd y rhan fwyaf o'r Panel yn cefnogi'r syniad na ddylai cysylltiad lleol fod yn gymwys i bobl ifanc 16-25 oed. Gallai eithrio'r grŵp hwn fod yn arwydd cynnar o sut y gallai dileu prawf cysylltiad lleol weithio, heb roi baich mawr ar awdurdodau lleol. Ar y llaw arall, gallai amlygu problemau y byddai angen eu cywiro cyn dileu yn gyfan gwbl neu brofi na ellir dileu cysylltiad lleol oherwydd y problemau a chanlyniadau anfwriadol.

Nid yw cadw cysylltiad lleol i bobl ifanc yn seiliedig ar drawma. Mae grwpiau fel pobl LGBTQ+, goroeswyr cam-drin domestig a gadawyr gofal yn gallu cael eu heffeithio'n ddrwg iawn. Mae angen diffiniadau ehangach o gysylltiad lleol, er enghraifft cynnwys ffrindiau a rhwydweithiau cefnogi. Yn ychwanegol at hyn mae angen ystyried teithwyr, yn enwedig os ydynt yn cael eu gwneud yn ddigartref o ganlyniad i Ddeddf yr Heddlu Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd.

Mae'r rhai sydd mewn gofal/lleoliadau wedi'u heithrio o'r prawf cysylltiad lleol dan y cod canllawiau presennol. Er hyn, mae angen mwy o hyfforddiant ar hyn i staff rheng flaen.

Gwaith amlasiantaeth

Dylai'r Ddeddf Tai a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gynhyrchu strategaeth ar y cyd gan nad ydynt yn gydgyssylltiedig ar hyn o bryd, ac mae hyn yn broblem fawr. Mae pobl ifanc yn syrthio rhwng y bylchau, â'r naill wasanaeth na'r llall yn ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb, a dim un ohonynt yn helpu pobl ifanc yn y diwedd.

Awgrymodd un aelod o awdurdod lleol y dylai pobl ifanc 16-17 oed fod yn gyfrifoldeb i wasanaethau gofal cymdeithasol, yn hytrach na thai. Fodd bynnag, gallai gwneud y ddyletswydd yn rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gael effaith negyddol ar annibyniaeth person ifanc 16-17 oed a rhaid i'r Panel ystyried sut y bydd canllawiau'n gymwys i wahanol grwpiau o bobl; h.y. pobl anabl, plant a theuluoedd, Sipsiwn a Theithwyr.

Yn yr Alban, mae'r Grŵp Adolygu Atal wedi argymhell y dylai gwasanaethau gwaith cymdeithasol ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Fodd bynnag, gwelwyd cryn wrthwynebiad.

Roedd y Panel yn cytuno bod angen dyletswydd i gefnogi naill ai gyda'r ddeddfwriaeth neu gyda'r cod canllawiau. Mae angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn, yn enwedig gyda'r bwriad o ymgorffori mewn Cynlluniau Tai Personol ar gyfer pobl ifanc 16-17 sy'n grŵp oedran agored i niwed. Heb gymorth mae pobl ifanc 16-17 oed mewn perygl o fethu.

Mae dyletswyddau sy'n cael eu cymhwyso i gyrrff cyhoeddus eraill, er enghraifft mae 'gofyn a gweithredu' yn gweithio'n dda mewn ardaloedd eraill ar hyn o bryd ac yn ennill momentwm. Er mwyn 'gweithredu', byddai angen darparu rhagor o hyfforddiant.

Ymyriadau digartrefedd yn gynharach yn y broses ym maes addysg

Teimlai rhai aelodau o'r Panel ei bod yn hollbwysig sicrhau bod siarad am dai a digartrefedd yn digwydd mewn ysgolion. Mae gan y Panel gyfle gwirioneddol i nodi dyletswydd a chanllawiau cyfreithiol priodol ac integreiddio model yn gynharach yn y broses er mwyn atal digartrefedd yn y cwricwlwm.

Gellid defnyddio cynllun sy'n cyfateb i 'gofyn a gweithredu' mewn ysgolion er mwyn nodi'r rhai hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd a darparu cymorth emosiynol a chymorth iechyd meddwl iddynt, yn ogystal ag ystyried sut y gellir cefnogi'r teulu. Mae ar blant angen cymorth, oherwydd gall digartrefedd fod yn brofiad trawmatig iawn, â rhai plant yn dal eu hemosiynau yn ôl er mwyn arbed straen ychwanegol i'w rhieni, a gallai hynny amlygu ei hun fel trawma pan maent yn hŷn. Byddai hyn yn drwm ar adnoddau ysgolion felly byddai angen cefnogaeth.

Mae rhai awdurdodau lleol yn mynd i ysgolion i gynnal sesiynau ar ddigartrefedd a dywedodd un awdurdod lleol eu bod yn darparu model hyfforddiant i weithwyr ieuencid ar y cyd â'r brifysgol leol. Mae Prifysgol Caerdydd yn gwerthuso ymchwil yn Lloegr ar effeithiolrwydd gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Liz Davies CB	<p>Meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol arnynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prawf cysylltiad lleol mewn perthynas â Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn enwedig os ydynt yn cael eu gwneud yn ddigartref o ganlyniad i Ddeddf yr Heddlu, Troseddu a Dedfrydu. • Posibilrwydd ar gyfer argymhellion y dylai pobl ifanc 16-17 oed gael tenantiaeth drwy eu hawl eu hunain (tenantiaeth i rai dan oed), fel sy'n digwydd yn yr Alban. • A ddylai'r ddyletswydd i gartrefu pobl ifanc 16-17 oed fod yn ddyletswydd tai ynteu wasanaethau cymdeithasol. • Peidio â rhyddhau pobl ifanc 16-17 oed i ddigartrefedd drwy newid deddfwriaeth, gan gynnwys dyletswydd atal 56 diwrnod. A allai'r cyfnod hysbysiad 56 diwrnod o risg o ddigartrefedd fod yn gymwys tra mae person ifanc mewn gofal cymdeithasol neu sefydliad diogel? • Mewn ysgolion, dyletswydd i gyfeirio/cydweithredu, plant sy'n wynebu risg. • Rolau eiriolaeth i grwpiau sy'n wynebu risg o wahaniaethu – i'w cynnwys mewn cyngor ar lety dros dro yn y dyfodol. 	I'w chadarnhau
Jennie Bibbings	Anfon papurau at LD ar y Ddeddf Rhentu Cartrefi mewn cysylltiad â chefnogi ymestyn tenantiaethau i rai dan oed yng Nghymru.	29.03.2023
Nazia Azad	Dosbarthu canfyddiadau prosiect <i>Wyre Forest and South Worcestershire Nightstop and Mediation Service</i> , sy'n ymgorffori'r dyletswyddau cyfeirio tai/digartrefedd a beth y gall pobl ei wneud, i aelodau'r Panel.	29.03.2023
Peter Mackie	Rhannu gwerthusiad Prifysgol Caerdydd o effeithiolrwydd gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion (Lloegr).	Pan fydd ar gael

6. **Diweddariad gan Arbenigwyr drwy Brofiad ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)**

Rhoddodd KD ddiweddariad ar y gwaith ymgysylltu ag Arbenigwyr drwy Brofiad i gefnogi'r papur a ddosbarthwyd i'r Panel cyn y cyfarfod. Diolchwyd i Cymorth i Fenywod Cymru am helpu i drefnu cyfweiliadau â goroeswyr. Roedd y prif themâu a godwyd gan y rhai a oedd wedi cael profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnwys:

Diffiniad cyfyngedig o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y Ddeddf Tai

Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at gam-drin domestig ac angen blaenoriaethol, ac nid at y diffiniad ehangach o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Mae angen i'r diffiniad yn y Ddeddf fod yn fwy cynhwysol, er mwyn adlewyrchu'r gwahanol heriau y mae goroeswyr yn eu hwynebu.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Diffiniad ehangach i'w adlewyrchu mewn deddfwriaeth.

Canfod eu ffordd o gwmpas y system

Yn yr un modd â phobl ifanc, dywedodd llawer o fenywod eu bod yn cael anhawster i ganfod eu ffordd o gwmpas y system a gwybod lle i fynd i gael help. Mae'r rhain yn bobl nad ydynt erioed wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaethau cymdeithasol o'r blaen. Mae diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth o'r broses.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Mae angen i'r system fod yn syml, yn glir ac yn hawdd i'w defnyddio yn ystod cyfnod trawmatig ym mywydau menywod pan maent yn agored i niwed. Rhaid iddi fod yn hygyrch, ond hefyd yn ddisywl.

O safbwynt anabledd yn fwyaf arbennig, roedd goroeswr byddar wedi cael anhawster i gael help a gwybod beth oedd ei hawliau. Nid oedd rhai mathau o lety dros dro yn hyfyw ar gyfer ei hanabledd.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Meddyliau am groestoriadedd, a'r angen am gymorth arbenigol.

Mae'n hollbwysig bod awdurdodau lleol yn gweithredu'n gyflym

Mae angen i'r ymateb gan awdurdodau lleol fod yn gyflym yn ystod cyfnod tyngedfennol i oroeswyr, e.e. pan maent yn dal yn y cartref. Fel arall byddant yn oedi cyn gadael yr aelwyd lle maent yn cael eu cam-drin, ac os bydd y sawl sy'n eu cam-drin yn dod i wybod am eu cynlluniau i adael, efallai y bydd y cam-drin yn gwaethygu. Mae hyn yn bwysig i'r agenda ataliol.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Canllawiau a pholisi drwy ymateb a dyletswyddau atal a sut i'w cymhwyso. Â'r canlyniad o sicrhau bod llety ar gael i'r goroeswyr, drwy fod mor ymatebol ag sy'n bosibl fel bod yr unigolyn yn gallu gadael ar adeg sy'n briodol ac nad yw'n cael ei orfodi oherwydd bod y trais yn cynyddu.

Bwriadoldeb

Mae'r rhai sydd â phrofiad o gael eu cam-drin o blaid diddymu'r prawf bwriadoldeb. Mae ystyried bod unigolyn yn ddigartref yn fwriadol os yw'n gwrthod llety dros dro yn arwydd o ddiffyg dealltwriaeth o'r sefyllfa go iawn. Mae nifer o resymau dilys dros wrthod llety dros dro.

Cysylltiad lleol

Mae goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn profi prawf cysylltiad lleol mwy hyblyg, ond mae lle i wella o hyd.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Angen gwella dulliau gweithredu.

Cymorth arbenigol

Mae angen cymorth arbenigol penodol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn hytrach na chymorth cyffredinol. Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma yn hollbwysig.

Tenantiaethau/perchnogaeth cartref ar y cyd

Dylai'r Ddeddf Rhentu Cartrefi helpu i ddatrys materion yn ymwneud â thenantiaethau ar y cyd, gan ei gwneud yn haws i oroeswyr aros yn eu heiddo a chael gwared ar y sawl sy'n eu cam-drin.

Nid yw goroeswyr sy'n rhannu morgais â phartner sy'n eu cam-drin bob amser yn glir ynglŷn â'u hawl i gael cymorth a rhywle i fyw. Wrth i gyfraddau morgais godi, mae mwy o berygl i bobl fod yn ddigartref gan eu bod yn methu â gwneud y taliadau, ac mae hyn yn fwy cymhleth mewn perthynas gamdriniol.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Egluro pa wybodaeth, help a chynghor sydd ar gael iddynt.

Llety dros dro anaddas

Mae llety dros dro yn achosi llawer o broblemau i fenywod sydd â phlant. Nid yw'r system yn seiliedig ar drawma, ac nid yw'n addas i oroeswyr trais (a'u plant). Mae'r ansicrwydd ynglŷn â faint o amser y bydd yn rhaid iddynt ei dreulio mewn llety dros dro yn niweidiol. O safbwynt goroeswr, mae'r trawma sy'n cael ei achosi gan yr ansicrwydd yn gwneud y trawma sy'n bodoli'n barod yn waeth.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Sicrhau bod y system yn seiliedig ar drawma neu beidio â gadael i oroeswyr gael eu lleoli mewn unrhyw fath o lety anaddas neu sefyllfa lle mae ansicrwydd.

Llety i gyflawnwyr troseddau

Mae gan y cyflawnwr ei hawliau ei hun ac mae dyletswydd i ystyried ei anghenion llety yntau. Gallai darparu ymateb priodol i gyflawnwr sy'n ddigartref ei atal rhag rhoi pwysau ar y goroeswr i ddychwelyd i'r cartref. Gall menywod deimlo dan bwysau i dderbyn y cyflawnwr yn ôl i'r cartref os yw'n ddigartref ar y stryd.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Atal y goroeswr rhag teimlo pwysau i dderbyn y sawl sy'n ei gam-drin yn ôl i'r cartref.

Argaeledd ac addasrwydd lloches

Mae prinder llety mewn lloches.

Canfu rhai pobl fod llety mewn lloches a rennir yn anaddas i'w hanghenion oherwydd problemau iechyd ac effaith bosibl ar eu plant.

Canfu pobl eraill eu bod yn cael mynediad at gymorth arbenigol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn lloches, ond nad oedd y cymorth hwn ar gael mewn llety gwasgaru.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Sut i sicrhau bod y mathau o letyau sy'n cael eu comisiynu neu eu hadeiladu yn cyfateb i anghenion goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n dod drwy'r system digartrefedd. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynhyrchu data blynyddol sy'n dangos y graddau nad yw'r cyflenwad yn cyfateb i'r galw.

Archwiliadau llety dros dro

Mae archwiliadau'n cael effaith fawr ar oroeswyr. Yn y bôn, mae'r Cynghor yn gwneud yn siŵr nad yw'r eiddo 'wedi cael ei falu', ond mae'r arfer yn niweidiol iawn oherwydd ei fod yn ymwithiol a heb fod yn seiliedig ar drawma.

Dyraniadau

Mae angen help i fenywod pan fyddant yn dod at eu hawdurdod lleol am y tro cyntaf. Dim ond ar ôl iddynt adael y cartref lle maent yn cael eu cam-drin y maent yn cael blaenoriaeth, ond mae angen

iddynt gael blaenoriaeth yn gynharach tra maent yn dal yn y cartref. Mae angen i staff rheng flaen gael yr hyfforddiant a'r ddealltwriaeth i weithredu ar frys.

Argymhellion i'r Panel eu trafod: Angen deall anghenion mewn darpariaeth llety dros dro/parhaol er mwyn atal digartrefedd.

System les

Roedd rhai menywod yn teimlo eu bod wedi cael eu dal mewn rhai sefyllfaoedd oherwydd pwysau gan y system les. Mae fforddiadwyedd yr eiddo yn faich, drwy rent ymlaen llaw a threth gyngor sy'n ychwanegu at yr anhawster i ymdopi yn ariannol. Dywedodd goroeswyr eu bod yn teimlo eu bod ar eu pen eu hunain ac mewn dyled ar ôl gadael cartref.

Gwasanaethau cyhoeddus eraill

- Gwasanaethau cymdeithasol – mae goroeswyr yn adrodd eu storïau drosodd a throsodd, â nodiadau swyddogol yn cael eu hysgrifennu ond dim golwg bod camau'n cael eu cymryd. Mae gorfod ailadrodd eu stori dim ond er mwyn cael cam nesaf y cymorth yn brofiad trawmatig iddynt. Mae angen mwy o wybodaeth yn y man er mwyn darparu cymorth a chynnig ymyriad cynnar, gan gynnwys cael eu harfogi i adnabod yr arwyddion yn gynnar. Mewn un achos, anfonodd y gwasanaethau cymdeithasol gyflawnwr ar gwrs rheoli dicter. Roedd hyn yn cael ei weld fel tic mewn bocs a chamodd y gwasanaethau cymdeithasol yn ôl, ond roedd y cyflawnwr yn dal i gam-drin.
- Addysg – mae angen dealltwriaeth o'r effaith y mae'r risg o ddigartrefedd yn ei gael ar blant.
- Yr Heddlu – gall cynnwys yr heddlu arwain at ragor o gam-drin. Roedd goroeswyr yn teimlo eu bod yn wynebu mwy o risg o drais a digartrefedd pan oedd y cyflawnwr yn cynnwys yr heddlu. Roeddent yn teimlo bod y denantiaeth mewn perygl pan oedd cymdogion a'r landlord yn sylwi ar fwy o heddlu o gwmpas yn yr eiddo, a bod pobl yn meddwl eu bod yn achosi helynt.
- Llys teulu – ar hyn o bryd yn defnyddio'r risg o ddigartrefedd i roi gwybod a yw'r fam yn fam dda. Yn dod yn ffactor tyngedfennol os yw plant yn cael eu cymryd ymaith i'r system ofal.

Argymhellion i'r Panel ei drafod: Fel y nodwyd yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae angen gwneud defnydd effeithiol o 'gofyn a gweithredu' gan nad yw'n cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd, h.y. gweithiwr iechyd, athro/athrawes, gweithiwr cymdeithasol. Mae angen i'r dull gweithredu fod yn fwy seiliedig ar drawma, oherwydd ar hyn o bryd y canlyniadau anfwriadol yw mai iechyd meddwl goroeswyr sy'n cael y bai am eu sefyllfa ddigartref, ac nid y gam-driniaeth y maent yn ei hwynebu. Dylai ymyriadau i gyflawnwyr fod wedi'u hachredu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio cyn dweud eu bod yn llwyddiannus.

7. Trafodaeth y Panel ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd ac y tynnwyd sylw atynt fel a ganlyn:

Sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg ac argymhellion ar gyfer diwygio yn ymwneud â -

- Deddfwriaeth ddigartrefedd greiddiol
- Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus ehangach

Gyda'r nod o geisio gwneud argymhellion diriaethol ar ganllawiau deddfwriaethol.

Sefyllfa ariannol goroeswyr

Mae pobl sy'n wynebu risg o gam-drin domestig yn ddigartref ac mae dyletswydd ddigartrefedd tuag atynt p'un a ydynt yn berchennog cartref, yn solfent yn ariannol neu â mwy o gyfalaf na'r lefel budd-daliadau. Ni all dyletswyddau digartrefedd fod yn ddibynnol ar y cwestiwn a yw'n ymddangos bod y fenyw yn mynd i allu talu am lety – mae'n anodd iawn i oroeswyr ryddhau eu hunain o berchnogaeth

cartref ac nid yw llawer o oroeswyr yn gallu cael mynediad at eu harian eu hunain oherwydd cam-drin ariannol.

Mae rhai cynlluniau dyraniadau yn rhoi blaenoriaeth is i geiswyr os ydynt yn berchen ar eu cartref neu os oes ganddynt gyfalaf. Dylai cynlluniau gynnwys eithriadau megis ffoi oherwydd cam-drin domestig.

Tenantiaethau ar y cyd

Nododd y Panel fod landlordiaid, dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru, bellach yn gallu terfynu tenantiaeth un person ond nid y llall mewn tenantiaeth ar y cyd – mae hyn o gymorth i oroeswyr, ond efallai fod angen mwy o arweiniad er mwyn gwneud yn siŵr bod hyn yn digwydd yn ymarferol.

Angen blaenoriaethol

Os yw angen blaenoriaethol yn cael ei ddiddymu, bydd y dioddefwr a'r cyflawnwr yn cael yr un flaenoriaeth o ran digartrefedd.

Cyflawnwyr yn cael eu symud o'r cartref

Mae rhoi'r hawl i'r heddlu symud cyflawnwyr honedig trais domestig o'r cartref ag amodau mechniaeth yn nodi nad oes ganddynt hawl i ddychwelyd yn cael ei weld fel ymarfer buddiol. Mae hyn yn rhoi'r dewis i fenywod a phlant a ydynt eisïau aros yn y cartref ai peidio.

Llety dros dro i gyflawnwyr troseddau

Mae angen gwneud mwy i ganfod llety i gyflawnwyr oherwydd mae perygl y byddant yn ceisio mynd yn ôl adref a bydd y cam-drin yn parhau.

Mae anawsterau wrth geisio darparu llety dros dro oherwydd ni ellir eu lleoli yn agos at y person sy'n ffoi rhag y trais domestig. Gall hyn fod yn gymwys hefyd i'r rhai sy'n gadael sefydliadau diogel ac mae awdurdodau lleol yn ceisio rheoli risg yn barhaus, nid yn unig i'r rhai hynny y maent yn eu lleoli, ond hefyd i aelodau o'r cyhoedd a allai ddod i gysylltiad â hwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei herio gan eiriolwyr cyflawnwyr sy'n dweud na chafodd eu hawliau dynol eu parchu gan nad oes ganddynt unrhyw ddewis ynglŷn â ble i fyw. Er hyn, nid yw hawliau dynol yn golygu bod gan rywun hawl i gael ei leoli ble bynnag y mae'n dymuno cael ei leoli, a byddai llys yn cefnogi asesiad risg yr awdurdod lleol o'r cyflawnwr.

Polisïau dyraniadau i gyflawnwyr

Mewn un achos gwelwyd cyflawnwr yn herio awdurdod lleol, gan ddweud bod peidio â gadael iddo fyw mewn lleoliad lle mae arno eisïau byw yn mynd yn groes i'w hawliau dynol, ac na all polisïau dyrannu llety gymhwyso cyfyngiadau ardal yn erbyn cyflawnwyr oni bai eu bod yn gadael sefydliad diogel a bod ganddynt amodau trwydded sydd â chyfyngiadau ardal ynghlwm wrthynt. Dywedodd LD nad oes gan unigolyn hawl i gael ei leoli ble bynnag y mae'n dymuno cael ei leoli dan gyfraith hawliau dynol. Pe bai hyn yn mynd i'r llys, byddai'r llys yn cefnogi penderfyniad yr awdurdod lleol gan y byddai'n seiliedig ar nod cyfreithlon yn dilyn asesiad risg.

Gwasanaethau cyhoeddus eraill

Mae angen cydweithredu ar draws y prif wasanaethau sy'n rhyngweithio â menywod sy'n wynebu cam-drin domestig, gan gynnwys digartrefedd, gwasanaethau cam-drin domestig, amddiffyn plant, a chyswllt â phlant.

Gellir defnyddio cynadleddau asesu risg amlasiantaethol (MARAC) i sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithredu ond dim ond achosion risg uchel sy'n cael eu trafod.

Diffinio atal yn llwyddiannus

Mae'r diffiniad o atal digartrefedd yn eang iawn yn Neddf Tai Cymru – gellid ystyried bod goroeswr sy'n cadw tenantiaeth yn y sector rhentu preifat am chwe mis fel achos lle mae digartrefedd wedi ei atal. Er hyn, y realiti yw ei bod yn agored iawn i niwed, yn dal i wynebu risg o drais ac yn methu â themlo'n gartrefol o gwbl yn ystod y chwe mis hwnnw.

Dyled a rennir

Gallai cyflawnwr gael dioddefwr/goroeswr i ddyled a/neu ôl-ddyledion rhent ar denantiaeth a rennir heb yn wybod i ddioddefwr. Gall hyn atal goroeswr rhag cael tŷ cymdeithasol.

Cysylltiad lleol

Ni ddylai cysylltiad lleol fod yn gymwys eisoes lle mae pryder ynglŷn â risg o gam-drin/trais. Mae angen cael hyblygrwydd parhaus yn y system er mwyn i oroeswyr allu cael mynediad i ardaloedd eraill a dychwelyd at gysylltiadau lleol blaenorol hefyd os dymunant.

Awgrymodd un aelod o'r Panel, yn ogystal â nodi nad yw cysylltiad lleol yn gymwys i rai grwpiau (e.e. goroeswyr cam-drin domestig), gellid nodi nad yw'n gymwys i amgylchiadau penodol. Byddai cam-drin domestig yn un o'r amgylchiadau lle dylai'r awdurdod lleol ystyried eu hailgartrefu y tu allan i'r ardal leol os dyna beth sydd orau i'r goroeswr.

Mae rhai goroeswyr wedi dweud bod arnynt angen profi eu bod yn wynebu risg er mwyn cael eu heithrio o'r prawf cysylltiad lleol. Mae hon yn broses drawmatig ac nid yw'n bosibl profi bob amser.

Hyfforddiant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae ar staff cymorth tai rheng flaen angen mwy o hyfforddiant ynglŷn â sut i weithio gyda goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma. Yr hyn sydd ar goll yn y gyfraith a'r canllawiau yw mai'r fenyw sy'n gwybod orau beth sy'n ddiogel iddi hi (a'i phlant) ar sail penderfyniadau deallus a'r gallu i ddewis. Er enghraifft, ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd ar oroeswyr eisiau cael eu lleoli mewn ardal wahanol i'w cysylltiad lleol – dylid ystyried hyn, ond y goroeswr ddylai ddewis.

Llety mewn argyfwng

Nid oes gan oroeswyr fynediad uniongyrchol at lety mewn argyfwng oherwydd prinder cyflenwad. A oes angen i awdurdodau lleol gadw llety i fod ar gael ar unwaith mewn sefyllfa o argyfwng, fel bod gan bobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yr hyder i adael?

Cysylltiadau landlordiaid â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae angen cysylltiadau gweithio agosach rhwng llochesi a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn nodi pan fydd pobl yn barod i symud ymlaen.

Gellid gwneud y sector rhentu preifat yn fwy ymwybodol o faterion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. A ellid cael dyletswydd i landlordiaid y sector rhentu preifat hysbysu awdurdodau lleol ynglŷn ag unrhyw bryderon?

Model lloches

Trafododd aelodau'r Panel lawer o rwystrau a oedd yn atal menywod rhag cael lle mewn lloches:

- Gall llochesi fod yn gostus – os nad yw goroeswr yn gymwys i dderbyn budd-daliadau neu os nad yw'r goroeswr yn gallu cael mynediad at arian oherwydd cam-drin ariannol, ni all gael ystafell.
- Nid yw menywod mewn gwaith yn gallu cael mynediad at loches.

- Yn aml iawn gwrthodir lloches i fechgyn hŷn, pobl sydd â lefel uchel o anghenion a phobl sydd â phroblemau defnyddio sylweddau.
- Mae teuluoedd yn cael eu rhannu gan nad yw llochesi yn gallu derbyn plant bob amser, neu gan nad yw menywod yn gweld lloches fel lle addas i blant, felly mae rhai plant yn cael eu gadael gyda'r sawl sy'n cam-drin tra mae eu mam yn aros yn y lloches.
- Yn aml iawn ni all llochesi ddarparu ar gyfer goroeswyr sydd ag anghenion hygrychedd.

Mae ar y model angen amrywiaeth o opsiynau fel bod goroeswyr yn gallu dewis y math o lety sydd fwyaf addas iddyn nhw. Dylai'r opsiynau gynnwys llety a rennir, llety cynullol, llety hunangynhwysol a llety gwasgaru a dylent fod yn niwtral o ran budd a daliadaeth. Dylai goroeswyr nad ydynt yn cael budd-daliadau gael mynediad uniongyrchol at lety ar unwaith, heb i rywun ddweud wrthynt bod llety i'w gael ond bod yn rhaid talu amdano.

Ffoaduriaid a phobl heb hawl i gyllid cyhoeddus

Nid yw goroeswyr cam-drin domestig nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus yn gymwys i gael llety drwy wasanaethau digartrefedd, er bod eu plant yn gymwys i gael eu cartrefu drwy wasanaethau cymdeithasol. Mae'r sefyllfa hon yn gwahanu teuluoedd ac yn atal goroeswyr rhag cael cymorth.

Pe bai'r Panel yn gwneud argymhelliad i atal gwahanu mamau oddi wrth eu plant, byddai drwy gymhwysra, gan egluro beth sy'n digwydd i bobl sy'n gadael cam-drin domestig nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Gallai naill ai ddeddfwriaeth neu ganllawiau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant nodi y dylai'r teulu gael ei leoli gyda'i gilydd bob amser.

Gall darparwyr lloches gael mynediad at arian gan y Swyddfa Gartref i gynorthwyo pobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus – gellid cynnwys y defnydd o hyn mewn deddfwriaeth.

Mae Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Cymru hefyd yn edrych ar ffyrdd eraill o gefnogi'r grŵp hwn o bobl gan fod pot o gyllid yn cael ei baratoi dan y ddeddf trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cymorth cymunedol i atal digartrefedd

Dyweddod aelod o'r Panel y bydd yn bwysig, wrth ddod ag argymhellion at ei gilydd, rhoi mwy o ystyriaeth i'r opsiynau cymorth cymunedol y tu allan i'r system dai a digartrefedd sydd ar gael i oroeswyr y byddai'n well ganddynt aros yn y cartref. Mae hon yn un o'r prif ffyrdd o atal menywod rhag dod i'r system ddigartrefedd.

Aelod(au) y Panel	Cam Gweithredu	Amserlen
Liz Davies CB	<p>Meysydd i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol arnynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyletswydd i gyfeirio • Tynhau canllawiau ynglŷn â thenantiaethau ar y cyd, er bod Deddf Rhentu Cartrefi Cymru yn gwella'r broblem hon • Argymhelliad posibl ynglŷn â chymhwysra goroeswyr nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus i dderbyn cymorth tai – gellid cysylltu hyn â chanllawiau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar osgoi gwahanu teuluoedd. 	I'w chadarnhau

Pawb	Anfon unrhyw broblemau i LD at Crisis lle bydd rhestr o bethau sydd eu heisiau yn cael ei llunio.	Ar unwaith
Jordan Brewer, Debbie Thomas	Casglu'r holl broblemau a godwyd gan y Panel, ac ar y cyd â SF cyflwyno rhestr gryno i'w hystyried gan LD.	31.03.2023
Jordan Brewer, Debbie Thomas	Gofyn am ddata gan Cymorth i Fenywod Cymru ynglŷn â'r galw am lety lloches a'r ddarpariaeth	I'w chadarnhau
Pawb	Meddwl am y goblygiadau ymarferol lle mae'r ddyletswydd honno i gyfeirio yn dod i mewn a sut y gwneir y cysylltiad cyntaf hwnnw gan fod llythyr neu alwad ffôn yn gallu cael effaith fawr.	Ar unwaith
Hannah Fisher	Trafod pedwar prif fater gyda grŵp cyfeirio'r awdurdodau lleol: <ul style="list-style-type: none"> • Tenantiaethau ar y cyd • Diddymu angen blaenoriaethol a beth mae hynny'n ei olygu i gyflawnwyr a dioddefwyr • Cyflawnwyr yn cael eu symud o'r cartref gan yr heddlu (fel a digwyddodd yn ystod y pandemig) • Llety dros dro i gyflawnwyr 	Yn y sesiwn grŵp nesaf os yw'n briodol
Pawb	A yw'r hyn sydd wedi'i roi yn Neddf Rhentu Cartrefi Cymru yn ddigon i gywiro unrhyw faterion blaenorol yn ymwneud â thai/digartrefedd. Mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn yr agweddau hynny ar y ddeddfwriaeth y gall y Panel argymhell eu llenwi.	Ar unwaith
Pawb	Trafod anghenion arbennig goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y cyfarfod dyrannu llety.	10.05.2023
Pawb	Meddwl am y math o waith sydd wedi'i wneud yn barod yng Nghymru gan y landlord cymdeithasol a beth arall y gellid ei wneud o ran polisi a chanllawiau.	Ar unwaith

8. Unrhyw Fater Arall

Mae AR wedi anfon pleidlais Doodle ar gyfer cyfarfod atodol 5.1 yn nodi dyddiadau ym mis Mawrth er mwyn darganfod dyddiadau posibl i gyfarfod y Panel. Diolch i'r Panel am gadarnhau'r dyddiadau y maent ar gael ar gyfer cyfarfod atodol 5.2. Dewiswyd 10 Mai fel dyddiad.

Cadarnhaodd DT bod dau sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u cynllunio ar gyfer y mis yma, un ar ieched a gofal cymdeithasol a fydd yn edrych yn benodol ar anabledde ar 20 Mawrth, a'r llall ar y system gyfiawnder troseddol ar 21 Mawrth. Anogwyd y Panel i rannu'r rhain ymhlith eu rhwydweithiau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Panel am ansawdd y drafodaeth ac am baratoi cystal ar gyfer y cyfarfod. Diolchwyd hefyd i'r rhai a gyfrannodd at bapurau, er mwyn cael trafodaeth gynhyrchiol a chyfoethog. Diolchwyd i'r cydweithwyr a ymunodd â'r cyfarfod heddiw am wneud amser i ymuno â'r Panel.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom ddydd Mercher, 29 Mawrth 2023.